Cân Creu

CYTGAN:
Paentio, gludo, lliwio, sticio,
Torri, tynnu llun,
Glynu, plygu a chymysgu,
Wel dyna hwyl yw hyn.

Mae gen i baent a brwshys, a pheniau ffelt bob lliw,
Creonau o bob maint, a glud a phapur amryliw,
Pensiliau mawr a bychan a chlai sy'n lliwgar iawn,
Hen ddarnau sgwâr o gardfwrdd, mae'r bocs crefftau yn llawn!

Sticeri, sialc a siswrn i greu bron unrhyw beth,
A llinyn sgleiniog, pelen wlân, dwi'n defnyddio popeth,
Mae sbort i'w gael bob amser wrth greu pethau di-ri
'Sdim ots os fydd 'na lanast, mae tacluso yn sbri!

© 2020 S4C